COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD / ADRODDIAD

DIBEN: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD – CYF. DLI096

Amseru: Arferol

Teitl: Gwerthu Hen Dŷ a Gorsaf Heddlu Cydweli i Ffederasiwn yr Heddlu

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Ystadau

Crynodeb Gweithredol:
Bellach, mae'r gwasanaeth plismona sy'n gofalu am Gydweli wedi'i leoli yng ngorsaf Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn y dref, ac mae'r hen dŷ heddlu'n wag. Cafwyd trafodaethau yng nghyfarfodydd y Bwrdd Prosiect Ystadau a'r Bwrdd Plismona mewn perthynas â'r diddordeb a ddangosir gan Ffederasiwn yr Heddlu yn yr eiddo. Derbyniwyd cynnig gan Ffederasiwn yr Heddlu, sef gwerth yr eiddo ar y farchnad fel y mae ar hyn o bryd. Derbyniwyd cyngor annibynnol o ran gwerth yr eiddo, ac ymchwiliwyd i ddewisiadau ar gyfer cynllunio yn y dyfodol. Ar y sail hon, gofynnir i'r Comisiynydd gymeradwyo'r gwerthiant i Ffederasiwn yr Heddlu am £170,000 gydag ychwanegiad o orswm ar unrhyw werthiant yn y dyfodol pe bai cais ar gyfer newid defnydd yn llwyddiannus yn y dyfodol.

Argymhelliad:
Gofynnir i'r Comisiynydd adolygu'r wybodaeth uchod a chymeradwyo penderfyniad i fwrw ymlaen fel y crynhowyd.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod / ~~Nid wyf yn cymeradwyo'r cais uchod~~ / Rwy'n nodi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys o fewn yr adroddiad (dileer fel y bo'n briodol)

Llofnod: **Dyddiad:** 22/01/2019